Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Wirfoddol Gatholig Rufeinig Sant Teilo
# Heol Greenhill
# Dinbych-y-pysgod
# Sir Benfro
# SA70 7LJ

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Wirfoddol Gatholig Rufeinig Sant Teilo

Mae Ysgol Gynradd Wirfoddol Gatholig Rufeinig Sant Teilo wedi ei lleoli yn nhref arfordirol Dinbych-y-pysgod, Sir Benfro. Mae 82 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, gan gynnwys chwech o ddisgyblion meithrin rhan-amser. Caiff y disgyblion eu haddysgu mewn pedwar dosbarth oedran cymysg. Mae tua 10% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim, sydd gryn dipyn islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 19%. Saesneg yw'r iaith y mae bron pob un o'r disgyblion yn ei siarad gartref, ac nid yw unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan 20% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sy'n agos iawn at y cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%. Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Penodwyd y pennaeth i'w rôl ym mis Medi 2016. Roedd arolygiad diweddaraf yr ysgol ym mis Chwefror 2013.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn cyflawni safonau priodol yn y rhan fwyaf o agweddau ar ddysgu. Fodd bynnag, mae disgyblion mwy abl a thalentog yn aml yn tangyflawni. Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw medrau Cymraeg disgyblion wedi eu datblygu'n ddigonol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agwedd gadarnhaol at ddysgu a dangosant falchder mawr yn eu hysgol ac yn eu gwaith. Ceir ethos gofalgar a chynhwysol iawn, sy'n pwysleisio lles disgyblion. Mae gan bron bob un o'r disgyblion foesau da a dangosant barch at ei gilydd ac at oedolion.

Mae athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu yn gweithio gyda'i gilydd yn dda ac, mewn mwyafrif o ddosbarthiadau, mae athrawon yn meithrin medrau dysgu'n annibynnol y disgyblion yn dda. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn datblygu'r medrau hyn yn ddigon da. Mae mwyafrif yr addysgu yn gryf, ond mae ansawdd yr addysgu yn amrywio gormod o un dosbarth i'r llall.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da dros gyfnod.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, mae'n gwerthfawrogi pob disgybl fel unigolyn ac yn rhoi cyfarwyddyd addas i'r staff. Fodd bynnag, nid oes unrhyw uwch arweinwyr eraill yn yr ysgol i rannu rolau a chyfrifoldebau arwain. Mae'r corff llywodraethol yn rhagweithiol ac yn cefnogi'r ysgol yn llwyddiannus.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwelliant** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau wedi eu diffinio'n ffurfiol i ymgymryd â chyfrifoldebau arwain yn absenoldeb y pennaeth

A2 Gwella ansawdd gweithdrefnau monitro er mwyn canolbwyntio'n gliriach ar ddeilliannau disgyblion

A3 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol

A4 Gwella medrau Cymraeg disgyblion

A5 Cynyddu'r cyfleoedd i ddisgyblion mwy abl a thalentog gyflawni eu llawn botensial

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwelliant**

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol â medrau a dealltwriaeth uwchlaw'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas o'u mannau cychwyn. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn tangyflawni. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion mwy abl yn cyflawni'r safonau y gallant eu cyflawni.

Mae medrau llafar disgyblion yn datblygu'n dda yn gynnar. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn eglur, gan ddefnyddio geiriau, ymadroddion a brawddegau syml gydag ystod gynyddol o eirfa. Maent yn gwrando'n dda, yn siarad yn agored ac yn trafod eu gwaith yn frwdfrydig gydag oedolion a disgyblion eraill, er enghraifft wrth ddisgrifio eu creadigaethau dinas dywod ar y traeth. Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn adnabod llythrennau a synau ac maent yn dechrau creu geiriau yn hyderus. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddarllenwyr hyderus ac yn darllen gyda chywirdeb a rhuglder. Mae llawer o ddisgyblion yn y dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1 yn ffurfio siapiau llythrennau'n gywir, ac erbyn Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt wedi datblygu arddull llawysgrifen gysylltiedig. Mae llawer o ddisgyblion erbyn diwedd y cyfnod sylfaen yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n briodol mewn ystod gyfyngedig o ffurfiau gwahanol. Maent yn ymestyn eu brawddegau gan ddefnyddio geiriau cysylltu sylfaenol ac yn defnyddio priflythrennau ac atalnodau llawn yn gywir.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau gwrando a siarad da ac mae ganddynt eirfa ddatblygedig. Defnyddiant hyn yn effeithiol, er enghraifft wrth berswadio ei gilydd i leihau'r defnydd o blastig er mwyn arbed y bywyd gwyllt yn y moroedd. Trwy gydol cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddarllenwyr rhugl. Mae llawer ohonynt yn defnyddio eu medrau darllen yn bwrpasol i ymchwilio i wybodaeth, er enghraifft wrth olrhain hanes bywyd Sant Teilo. Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n briodol mewn ystod addas o arddulliau ac yn trosglwyddo'r medrau hyn yn dda ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ysgrifennu swydd-ddisgrifiad ar gyfer apostol yn eu gwaith addysg grefyddol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad mathemategol yn y cyfnod sylfaen. Maent yn dysgu adio a thynnu rhifau ac yn defnyddio bondiau rhif yn dda i ddatrys problemau. Mae llawer o ddisgyblion yn mesur hyd ac amser yn gywir gan ddefnyddio mesuriadau cywir ac maent yn deall rhifau negyddol mewn tymheredd. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod o strategaethau i ddatrys problemau yn gymwys, er enghraifft helpu'r cogydd yng ngwesty ffuglennol 'Dragon Hotel' i gynllunio ei ddiwrnod trwy wneud rhestr siopa, a oedd yn cynnwys trin rhifau, cyfrifo amser, mesur a thalgrynnu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dadansoddi data, yn datrys ffracsiynau a phroblemau canran, yn cyfrifo perimedr ac arwynebedd, yn enwi a disgrifio priodoleddau siapiau tri dimensiwn ac yn darllen graddfa ar ystod o offer mesur yn gywir ac yn dda.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu Cymraeg. Mae llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu dealltwriaeth addas o'r Gymraeg. Maent yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau syml ac yn deall ychydig o eiriau ac ymadroddion Cymraeg syml. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn hyderus i gwestiynau am eu hoff ŵr neu wraig enwog, a'u hoffterau a'u casbethau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau Cymraeg ac yn ateb cwestiynau syml amdanyn nhw eu hunain neu'r tywydd. Fodd bynnag, ychydig iawn o ddisgyblion sy'n galw geirfa Gymraeg i gof yn ddigon cyflym i gymryd rhan mewn sgyrsiau distrwythur. Mae llawer o ddisgyblion yn darllen gydag ynganiad boddhaol, ond nid ydynt bob amser yn dangos dealltwriaeth gadarn o destunau. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod o batrymau brawddegau yn amser y presennol a'r dyfodol ar safon briodol, gyda chymorth sgaffaldiau ysgrifennu a llyfryn cyhoeddedig.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau effeithiol mewn TGCh. Yn y cyfnod sylfaen, defnyddiant ystod briodol o gymwysiadau. Er enghraifft, mae disgyblion yn creu llun o ynys anghyfannedd ac yn mewnbynnu testun i ddisgrifio nodweddion cymydog da ar yr ynys. Gall llawer o ddisgyblion greu graffiau syml yn hyderus, er enghraifft i ddangos y gwahanol hydoedd mewn olion traed o ardaloedd o gwmpas iard yr ysgol. Mae llawer ohonynt yn defnyddio rhaglen i fewnbynnu cyfarwyddiadau i symud crwban yn gywir ar sgrin o un rhan o bentref i un arall.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio meddalwedd cyflwyno a chyhoeddi yn effeithiol ar draws ystod o gyd-destunau, er enghraifft i greu cyflwyniadau aml-gyfrwng am fywyd offeiriad lleol. Mae llawer ohonynt yn defnyddio cronfa ddata yn gywir, i gasglu a chofnodi gwybodaeth, er enghraifft wrth gymharu poblogaeth gwledydd amrywiol a chreu diagram cangen i ymholi am ffurfiant creigiau. Mae llawer o ddisgyblion yn creu mewnbwn a set o gyfarwyddiadau yn llwyddiannus i symud delwedd o ysbryd ar sgrin animeiddiedig o goedwig. Mae ymwybyddiaeth disgyblion o e-ddiogelwch yn gryfder yn yr ysgol.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae'r ysgol yn amgylchedd meithringar a phwyllog lle mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel a hapus. Maent yn gwybod gyda phwy i siarad pan fyddant yn gofidio. Maent yn dangos parch at ei gilydd ac at staff ac ymwelwyr. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion yn dal drysau ar gyfer ymwelwyr, gan eu cyfarch yn gwrtais. Mae bron pob un o'r disgyblion yn symud o gwmpas yr ysgol yn bwyllog a threfnus ac yn siarad yn hyderus ag oedolion mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Dangosant falchder wrth siarad am eu hysgol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth glir o bwysigrwydd gwneud dewisiadau iach ynglŷn â diet a gweithgarwch corfforol. Mae llawer o ddisgyblion yn elwa ar ystod dda o weithgareddau allgyrsiol sy'n hyrwyddo eu lles corfforol, fel pêl-droed a phêl-rwyd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan yn gyson mewn digwyddiadau chwaraeon wedi'u trefnu, fel gymnasteg yr Urdd a menter i feicio i'r ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol, yn ymgymryd â rolau arwain i helpu pobl eraill, fel Cyfeillion Maes Chwarae, Arweinwyr Digidol a Llysgenhadon Ysgol. Mae'r Criw Cymraeg a sefydlwyd yn ddiweddar yn

ysgwyddo eu rolau yn ddifrifol i helpu hyrwyddo defnydd oedolion a chyd-ddisgyblion o ymadroddion a phatrymau brawddegau Cymraeg bob dydd.

Mae medrau dysgu'n annibynnol mwyafrif y disgyblion yn datblygu'n dda yn y cyfnod sylfaen ond maent yn fwy cyfyngedig yng nghyfnod allweddol 2 lle mae lleiafrif o ddisgyblion yn dibynnu'n helaeth ar oedolion. Mae disgyblion yn dechrau cael eu cynnwys yn fwy ac yn dangos mwy o annibyniaeth trwy'r 'Awr Athrylith' ('Genius hour'), lle caiff disgyblion eu hannog i arwain eu dysgu eu hunain.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos ymwybyddiaeth ddatblygol o ddyfalbarhad a gwydnwch. Maent yn dechrau siarad am y strategaethau o'r arddangosfeydd Sownd yn y Mwd ('Stuck in the Mud') yn y dosbarth ac yn eu defnyddio'n briodol pan fyddant yn wynebu anawsterau. Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau siarad am yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn frwdfrydig ac yn ymgysylltu â'u dysgu, pan gânt eu cynorthwyo ag adnoddau a chyfleoedd perthnasol, er enghraifft pan fydd disgyblion y cyfnod sylfaen yn creu cymeriad gan ddefnyddio llysiau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd mynd i'r ysgol yn rheolaidd a chyrraedd yn brydlon, yn barod i ddysgu. Fodd bynnag, er gwaethaf ymdrechion a strategaethau'r ysgol, mae cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi gostwng dros y tair blynedd diwethaf ac nid ydynt yn cymharu'n dda â chyfraddau presenoldeb ysgolion eraill tebyg. Mae apwyntiadau am resymau meddygol ac iechyd yn rheolaidd yn cael effaith niweidiol ar bresenoldeb cyffredinol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda, ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o arferion dosbarth. Ar y cyfan, maent yn ymgynefino'n gyflym ac yn gweithio'n bwrpasol mewn gwersi. Fodd bynnag, mae ymddygiad ychydig iawn o ddisgyblion yn tarfu ar ddysgu disgyblion eraill o bryd i'w gilydd.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwelliant**

At ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu yn ddigonol ac angen gwelliant. Mae gan bob un o'r athrawon wybodaeth bynciol briodol ac mae mwyafrif yr addysgu yn gryf. Fodd bynnag, mae ansawdd yr addysgu yn amrywio gormod ar draws yr ysgol. Yn y gwersi lle mae'r addysgu'n gryf, mae athrawon a staff cymorth yn darparu profiadau dysgu ysgogol, yn atgoffa disgyblion am eu dysgu blaenorol yn briodol ac yn cyflwyno amcanion dysgu a chyfarwyddiadau yn glir. Mae llawer o athrawon yn gofyn ystod eang o gwestiynau sy'n helpu ymestyn dysgu disgyblion yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn herio disgyblion yn ddigon cyson bob amser, yn enwedig y rhai mwy abl, ac maent yn rhoi gormod o gyfarwyddyd i'w dysgu ar adegau.

Mae gan y rhan fwyaf o staff berthynas weithio gadarnhaol gyda disgyblion. Fodd bynnag, mae strategaethau i reoli ychydig bach o ymddygiad aflonyddgar disgyblion yn effeithiol yn anghyson ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn defnyddio cynorthwywyr addysgu'n dda i gynorthwyo disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, ac o ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da dros gyfnod.

Mae athrawon yn rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig effeithiol i ddisgyblion am ansawdd eu gwaith. Mae meini prawf llwyddiant, a ddarperir gan staff ar gyfer pob tasg, yn cynorthwyo disgyblion i asesu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill yn effeithiol. Mae hyn yn gyson ar draws yr ysgol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ddisgyblion greu eu meini prawf llwyddiant eu hunain yn gyfyngedig.

Mae athrawon wedi creu cwricwlwm wedi'i gynllunio'n ofalus sy'n mynd i'r afael â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, y cyfnod sylfaen ac addysg grefyddol Gatholig. Mae hyn yn cynnwys 'Teithio ar ddydd Mawrth' ('Trekking Tuesday'), lle mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn mynd i'r gymuned bob wythnos i ddysgu oddi wrth brofiadau go iawn. Mae'r cwricwlwm yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a TGCh mewn pynciau a meysydd dysgu eraill. Fodd bynnag, mae cyfleoedd cynlluniedig i ddefnyddio rhifedd ar draws y cwricwlwm, mewn sefyllfaoedd dilys go iawn, yn gyfyngedig. Mae'r ysgol wedi cyflwyno sesiynau 'Awr Athrylith' ('Genius Hour') wythnosol yn ddiweddar, sy'n annog disgyblion i gydweithio mewn grwpiau bach i ddarganfod ac archwilio dysgu annibynnol ar bwnc o'u dewis. Mae bron pob un o'r disgyblion yn siarad yn gadarnhaol am y profiadau hyn a'r dysgu a gawsant trwy'r sesiynau hyn.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion gymryd rhan mewn ymweliadau ysgol sy'n gwella'r cwricwlwm yn dda. Mae'r rhain yn cynnwys ymweld â maes awyr Carew, gorsaf dân Dinbych-y-pysgod a thaith breswyl i Gaerdydd. Mae gwesteion amrywiol yn ymweld â'r ysgol, gan wella profiadau dysgu'r disgyblion yn dda. Er enghraifft, mae awdur, canwr enwog sy'n gyn-ddisgybl yr ysgol, darlunydd ac arlunydd preswyl a fu'n gweithio gyda'r disgyblion i greu murlun ysgol, i gyd wedi mynychu'n ddiweddar.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer y Gymraeg yn cefnogi llawer o ddisgyblion i wneud cynnydd addas o ran caffael yr iaith. Mae cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg mewn gwersi dynodedig yn briodol. Mae'r ysgol yn rhoi'r 'Siarter Iaith' ar waith ar draws yr ysgol ar hyn o bryd. Mae'r ysgol yn defnyddio'r 'Criw Cymraeg' i hyrwyddo'r Gymraeg trwy wasanaethau, tystysgrifau dathlu a phrofiad bwyta Cymraeg i annog sgwrsio yn Gymraeg. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae hyn.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd priodol i ddysgu am eu hardal, a hanes a diwylliant Cymru trwy ystod addas o ymweliadau addysgol ac ymwelwyr. Mae enghreifftiau'n cynnwys ymweld â Chastell Henllys a Llangrannog.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae gan yr ysgol ethos cynhwysol a chroesawgar sy'n treiddio trwy ei gwaith a'i bywyd bob dydd. O ganlyniad, mae oedolion a disgyblion yn dangos parch, gofal a phryder am ei gilydd. Mae pob un o'r athrawon yn darparu cyfleoedd llwyddiannus i ddisgyblion rannu eu hemosiynau a'u pryderon, er enghraifft trwy flwch gofidiau. Mae staff yn sensitif wrth ymateb i anghenion disgyblion.

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod gynhwysfawr o brosesau i olrhain a monitro cynnydd a lles pob disgybl yn gyson. Defnyddiant y wybodaeth hon i nodi grwpiau o ddysgwyr, fel disgyblion sy'n fwy abl, a'r rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r defnydd o'r systemau olrhain hyn gan yr holl athrawon i lywio eu haddysgu yn yr ystafell ddosbarth.

Mae staff yn gweithio'n dda gydag ystod eang o wasanaethau arbenigol ac asiantaethau allanol. Defnyddiant eu harbenigedd i helpu cynorthwyo disgyblion yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o raglenni ymyrraeth perthnasol i gefnogi anghenion llythrennedd, rhifedd ac anghenion emosiynol disgyblion. Mae'r ysgol yn defnyddio nifer o staff effeithiol a phrofiadol i gyflwyno'r rhaglenni hyn yn unigol neu mewn grwpiau bach. Mae cynlluniau dysgu personol addas ar gyfer y disgyblion hynny sydd eu hangen. Mae'r rhain yn amlygu anghenion disgyblion a'r ffordd orau o'u cynorthwyo. Caiff disgyblion gyfleoedd rheolaidd i ymgorffori eu meddyliau a'u teimladau yn y cynlluniau hyn ochr yn ochr ag athrawon dosbarth. Mae staff cymorth yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i gynllunio gwaith ymyrraeth a monitro cynnydd. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da yn unol â'u targedau personol.

Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cynnal system glir ar gyfer galluogi staff i nodi disgyblion sydd angen cymorth emosiynol, ac maent yn sicrhau bod staff hyfforddedig yn darparu cymorth effeithiol i'r rheiny a nodwyd. Mae'r ysgol wedi mabwysiadu Fudge y gwningen, sy'n darparu cymorth da i'r disgyblion hynny ag anghenion emosiynol. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar y disgyblion mewn un dosbarth penodol.

Mae'r ysgol wedi sefydlu perthynas sefydledig gyda rhieni ac mae'n darparu llinellau cyfathrebu effeithiol, sy'n cynnwys system gwobrwyo dosbarth, cylchlythyrau a chyfryngau cymdeithasol. Mae'r ysgol yn helpu rhieni i gefnogi dysgu eu plentyn trwy gymwysiadau ar-lein defnyddiol fel rhaglen TGCh mathemateg a phlatfform TGCh ar gyfer dysgu. Mae'r ysgol yn hysbysu rhieni'n dda am gynnydd eu plentyn ac maent yn gofyn eu barn ac yn ystyried eu hadborth.

Mae gan yr ysgol gymdeithas weithgar, sef Ffrindiau Sant Teilo, sy'n trefnu ystod eang ac amrywiol o weithgareddau. Mae'n codi arian buddiol, y mae'r ysgol wedi ei ddefnyddio i ddarparu amrywiaeth o adnoddau ychwanegol, fel offer chwarae awyr agored.

Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae athrawon ac arweinwyr yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ddatblygu ffyrdd iach o fyw. Mae'r ystod eang o glybiau chwaraeon ar ôl yr ysgol yn cyfoethogi datblygiad corfforol disgyblion yn llwyddiannus ac yn cyfrannu'n dda at safonau lles disgyblion. Mae gweithgareddau fel y filltir ddyddiol a'r llwybr antur yn darparu rhagor o gyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion fwynhau buddiannau ffordd iach o fyw.

Mae bron pob un o'r disgyblion wedi sefydlu cyfleoedd i ddatblygu eu dealltwriaeth o faterion ysbrydol a moesol trwy ffocws clir yr ysgol ar werthoedd. Mae'r gwerthoedd hyn yn ymddangos yn rheolaidd mewn addoli ar y cyd, yn ogystal â chyfleoedd i fyfyrio ar y modd y mae eu gweithredoedd yn effeithio ar bobl eraill.

Mae cyfleoedd defnyddiol i hyrwyddo datblygiad diwylliannol disgyblion. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi cymryd rhan mewn gŵyl genedlaethol i ddathlu gwaith Shakespeare. Mae'r clwb crefftau ar ôl yr ysgol yn darparu profiadau creadigol difyr ar gyfer disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau i hyrwyddo datblygiad creadigol disgyblion trwy gelf, cerddoriaeth a drama wedi eu datblygu'n ddigonol ar y cyfan.

Mae cyfleoedd cynhwysol i ddisgyblion gyfrannu at waith a bywyd yr ysgol. Mae fforymau llais y disgybl, fel cynghorwyr ysgol, Arweinwyr Digidol a'r Criw Cymraeg, yn gwneud cynnydd da ac maent yn dechrau cyfrannu at benderfyniadau at welliannau'r ysgol ac yn trefnu digwyddiadau. Fodd bynnag, nid yw disgyblion bob amser yn cael cyfle i ddylanwadu na gwneud penderfyniadau am yr hyn y maent eisiau ei ddysgu, a sut maent eisiau ei ddysgu, yn gyson ar draws yr ysgol.

Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer cydweithio rhwng disgyblion ac ar gyfer gweithio fel tîm.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwelliant**

Mae'r pennaeth wedi sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy'n canolbwyntio ar les disgyblion ac ar ddarparu addysg gynhwysol i bawb. Mae hi wedi cyfleu'r weledigaeth hon yn glir ymhlith staff, llywodraethwyr, disgyblion a rhieni. Mae rolau a chyfrifoldebau ar gyfer pob aelod o staff wedi eu diffinio'n dda. Fodd bynnag, nid oes cyfleoedd ffurfiol iddynt brofi rolau arwain yn yr ysgol nac unrhyw drefniadau wedi'u diffinio'n ffurfiol i ymgymryd â chyfrifoldebau arwain yn absenoldeb y pennaeth.

Mae gweithdrefnau defnyddiol i reoli perfformiad staff sy'n arwain at dargedau penodol ar gyfer datblygu ymhellach. Fodd bynnag, mae'r prosesau presennol ar gyfer monitro safonau disgyblion yn canolbwyntio'n bennaf ar ddarpariaeth ac nid yn ddigonol ar ddeilliannau.

Mae'r ysgol wedi datblygu proses amserlenedig ar gyfer arfarnu ei gwaith ac mae'r adroddiad hunanarfarnu yn arfarnol a chryno. Mae'n cydnabod y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, a meysydd i'w gwella. Mae'r ysgol yn nodi a chynllunio ar gyfer ei chyfeiriad strategol, gyda ffocws ar yr angen parhaus i wella ansawdd yr addysgu, yn enwedig ar gyfer y disgyblion mwy abl a thalentog, ac i wella safonau mewn Cymraeg. Nid yw'r rhain wedi'u datblygu'n llawn eto.

Mae cynlluniau datblygu'r ysgol yn cynnwys cynlluniau gweithredu priodol i gefnogi strategaethau i gyflawni targedau newydd. Mae'r cynlluniau gweithredu hyn yn enwi'r personél sy'n gyfrifol, mae ganddynt amserlen synhwyrol, maent yn amlinellu'r dystiolaeth allweddol sydd ei hangen i fesur cynnydd, yn amlygu goblygiadau o ran adnoddau ac yn enwi'r llywodraethwr cyswllt. Fodd bynnag, mae cynnydd yn unol ag argymhellion yr arolygiad blaenorol yn gyfyngedig a lleiafrif ohonynt yn unig a gyflawnwyd hyd yma.

Mae ychydig o gyfleoedd i gefnogi dysgu proffesiynol pob un o'r staff. Er enghraifft, mae'r hyfforddiant a ddarperir i ddatblygu lles emosiynol disgyblion wedi profi'n effeithiol o ran meithrin eu hunanhyder a gwella eu gwaith. Mae staff wedi ymweld ag ysgolion eraill yn yr ardal i wella eu gwybodaeth am TGCh ac maent wedi rhannu hyn â'u cydweithwyr. Mae hyn yn helpu gwella eu hyder wrth gyflwyno'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol. Mae hyn wedi arwain at glwb codio a chlwb cyfrifiaduron fel darpariaeth allgyrsiol, sy'n cyfrannu'n dda tuag at wella safonau disgyblion mewn TGCh.

Mae'r ysgol yn cymryd sylw da o flaenoriaethau lleol, yn arbennig trwy sefydlu'r gweithgarwch Awr Athrylith wythnosol yn ddiweddar ar y cyd â'r consortiwm rhanbarthol. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu dull mwy annibynnol o ddysgu.

Mae'r ysgol wedi rhannu arfer dda o'r cyfnod sylfaen gydag ysgolion eraill. Er enghraifft, mae'r ymweliadau â thraeth Dinbych-y-pysgod yn darparu gweithgareddau dysgu creadigol a dychmygus gwerthfawr ar gyfer y disgyblion.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol i waith yr ysgol. Maent wedi sefydlu rolau cyswllt i fonitro effaith agweddau amrywiol ar y ddarpariaeth ac fe wnaethant lwyddo i sicrhau mwy o gymorth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd ac yn cynnal arsylwadau o weithgareddau penodol sy'n gysylltiedig â gwyddoniaeth a llythrennedd. O ganlyniad, maent yn ennill dealltwriaeth gynyddol o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu ymhellach. Fodd bynnag, mae rolau llywodraethwyr wrth herio'r ysgol am safonau disgyblion yn gyfyngedig.

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau'r ysgol yn dda, ac mae penderfyniadau am wariant yn cefnogi targedau ar gyfer gwella yn briodol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o gyllid grant fel y grant datblygu disgyblion i wella deilliannau a lles disgyblion. Mae nifer briodol o athrawon a staff cymorth i gyflwyno'r cwricwlwm.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/12/2018